Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Ysbrydoli Dyfodol Uchelgeisiol

Cynllun Strategol 2025-2029

# Trosolwg

Mae'n bleser mawr gennym eich cyflwyno i'n Cynllun Strategol ar gyfer 2025-2029. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli nid yn unig map ffordd ar gyfer ein dyfodol, ond gweledigaeth gyfunol wedi'i llunio gan leisiau a dymuniadau cymuned ein Coleg, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Wrth wraidd ein cynllun strategol mae ein datganiad Gweledigaeth sy'n cyfleu cyfeiriad hirdymor y Coleg.

**Ysbrydoli Dyfodol Uchelgeisiol**

Mae ein gweledigaeth yn adlewyrchu ein hymrwymiad i helpu pob dysgwr unigol i gyrraedd ei botensial uchaf. Rydym yn Goleg lle mae dyheadau ac uchelgeisiau yn cael eu tanio, rhwystrau yn cael eu chwalu, a llwyddiant yn cael ei feithrin. Mae ein gweledigaeth wedi cael ei dylanwadu trwy dystio'r gwaith cadarnhaol a wnaed ar draws pob maes y Coleg.

Mae ein datganiad Cenhadaeth yn diffinio ein pwrpas sylfaenol, yr hyn rydym yn sefyll drosto a'r hyn rydym yn ei wneud.

**Trawsnewid Bywydau trwy Addysg, Sgiliau, a Hyfforddiant**

Mae ein Cenhadaeth yn amlygu ein hymroddiad i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau ein dysgwyr, ein cyflogwyr, ein partneriaid a'r gymuned ehangach.

Credwn mai addysg yw'r arf mwyaf grymus ar gyfer newid, a thrwy addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel rydym yn galluogi pob un o'n dysgwyr i ffynnu a llwyddo ac mae hyn yn cael effaith drawsnewidiol arnynt yn ystod eu hamser gyda ni.

# Ein Hymrwymiad Craidd: Ein Dysgwyr

Mae ein hymrwymiad parhaus i'n dysgwyr wrth wraidd ein cynllun, gan sicrhau profiad rhagorol i'r dysgwr ynghyd ag addysg, sgiliau a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae'r ymrwymiad hwn yn hanfodol bwysig i ni oherwydd, trwy wneud hyn, gallwn fod yn sbardun i ddatblygiad economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.

Rydym yn credu, trwy ganolbwyntio ar ragoriaeth mewn addysg a hyfforddiant, nid yn unig rydym yn paratoi unigolion ar gyfer gyrfaoedd llwyddiannus, ond rydym hefyd yn:

## Hyrwyddo cyfle

Trwy ddarparu addysg o ansawdd uchel i bawb, rydym yn agor drysau i gyfleoedd newydd a all drawsnewid bywydau a chymunedau.

## Llywio twf economaidd

Mae ein dysgwyr yn cael eu hyfforddi'n dda i fod yn aelodau medrus o'r gweithlu gan ddenu buddsoddiad a chynyddu arloesedd yn ein rhanbarth.

## Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol

Trwy arferion addysg gynhwysol, rydym yn meithrin dealltwriaeth ac yn chwalu rhwystrau yn ein cymdeithas amrywiol.

## Cefnogi datblygiad cynaliadwy

Trwy gynnwys ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy yn ein rhaglenni, rydym yn paratoi dysgwyr i fabwysiadu ymddygiadau cynaliadwy a chyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.



# Yr allwedd i'n llwyddiant: Ein Staff

Rydym yn cydnabod bod ein gallu i ddarparu profiad rhagorol i'r dysgwr sydd o ansawdd rhagorol yn dibynnu'n bennaf ar ein staff eithriadol. Ein staff yw'r grym y tu ôl i'n gweledigaeth ac maen nhw'n hanfodol i gyflawni ein cenhadaeth trwy sicrhau ffocws parhaus ar les a chynhwysiant. Trwy lwyddiant a gwasanaeth hir, a darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol, ein nod yw parhau i ddenu a chadw'r staff gorau oll.









# Ein Dull Gweithredu

Bu datblygiad y cynllun strategol hwn yn ymdrech wirioneddol gydweithredol. Rydym wedi cynnal ymgynghoriadau helaeth ac wedi casglu adborth gwerthfawr gan ein staff, ein dysgwyr, ein Bwrdd y Gorfforaeth a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein cyflogwyr a'n partneriaid. Mae'r dull cynhwysol hwn yn sicrhau bod ein cynllun yn adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion amrywiol pawb sy'n hanfodol i lwyddiant ein Coleg.

Wrth lunio'r cynllun hwn, rydym wedi ystyried yn ofalus yr amgylchedd allanol deinamig rydym yn gweithredu ynddo. Rydym wedi cysoni ein strategaethau â datblygiadau rhanbarthol arwyddocaol a mentrau cenedlaethol, gan gynnwys:

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Cynllun strategol Medr

Mae ein hamcanion yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol ehangach y sector, sy'n canolbwyntio ar system addysg drydyddol seiliedig ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad yn ganolog iddi.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym wedi cynnwys egwyddorion cynaliadwyedd a meddylfryd hirdymor ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau i sicrhau bod anghenion heddiw yn cael eu hateb heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Llywodraeth Cymru

Mae ein strategaethau yn cyd-fynd â blaenoriaethau a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gefnogi'r agenda cenedlaethol ar gyfer addysg a datblygu sgiliau.

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal

## Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Rydym yn manteisio ar y cyfleoedd economaidd a gyflwynir gan y buddsoddiad trawsnewidiol hwn yn ein rhanbarth.

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

## Tirlun cymwysterau yng Nghymru

Lluniwyd ein cynllun yn ôl diwygiadau cyfredol i gymwysterau, gan gynnwys: Rhoi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith o fewn y sector ysgolion, datblygu cymwysterau TGAU 'Gwneud-i-Gymru' newydd, a chreu cymwysterau TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni arloesi ac addasu gan sicrhau cyfnod pontio effeithiol i addyg ôl-16.

PORTHLADD RHYDD CELTAIDD
CELTIC FREEPORT

## Cyfleoedd Porthladdoedd Rhydd Celtaidd

Mae'r Coleg yn cefnogi ac yn manteisio ar y fenter economaidd gyffrous hon.

# Ble byddwn ni ymhen pum mlynedd?

Yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, rydym ni mewn cyfnod allweddol ar ein taith. Er ein bod eisoes wedi cyflawni cymaint, credwn y gallwn wneud rhagor eto, a mynd hyd yn oed ymhellach. Gallwn adeiladu ar ein henw rhagorol, ehangu ein twf mewn marchnadoedd presennol a newydd a chael effaith gadarnhaol ar ein dysgwyr, ein staff, ein cyflogwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Trwy weithio gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Medr, a Chyngor Abertawe, byddwn yn ceisio cyflawni'r amcanion canlynol.

Ymhen pum mlynedd byddwn ni:

## ✓ Y Coleg sy'n perfformio orau yng Nghymru

- Dysgu, addysgu ac asesu rhagorol
- Canlyniadau cyrsiau a graddau sy'n uwch na'r meincnodau cenedlaethol
- Gwell cyfraddau cwblhau mewn perthynas â fframweithiau prentisiaeth
- Adolygiadau ansawdd mewnol ac allanol
- Iechyd a pherfformiad ariannol cryf.

## ✓ Darparu profiad rhagorol i'r dysgwr

- Gwell ystâd y Coleg gan gynnwys ailddatblygiad Gorseinon, lleoliad Canol y Ddinas a gwell cyfleusterau chwaraeon
- Gweithredu strategaeth addysg uwch newydd gyda gwell amrywiaeth o gyrsiau ar Lefelau 4 a 5
- Cynnydd mewn cyfraddau boddhad myfyrwyr ar draws pob campws
- Gwell cyfraddau cadw myfyrwyr a lefelau dilyniant.

## ✓ Coleg a chyflogwr o ddewis

- Sefydlu'r Coleg fel y prif ddarparwr addysgol yng Nghymru trwy gynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr
- Cyrraedd targedau cofrestru arfaethedig trwy strategaethau recriwtio a chadw effeithiol
- Ennill gwobrau a chydnabyddiaeth genedlaethol
- Cynnydd mewn recriwtiaid a phartneriaethau rhyngwladol
- Cyfraddau boddhad staff uchel
- Gwell cyfraddau ymgeisio am swyddi gwag staff.

## ✓ Partner dibynadwy i gyflogwyr, a'n cymunedau

- Ateb anghenion cyflogwyr, rhoi sylw i fylchau sgiliau a chyfleoedd sy'n codi
- Cefnogi ein hysgolion, trwy ddarpariaeth alwedigaethol y cymwysterau TAAU newydd mewn modd sy'n gynaliadwy yn ariannol
- Sefydlu byrddau cyflogwyr ym mhob maes cwricwlwm galwedigaethol i lywio datblygiad y cwricwlwm.

## ✓ Coleg ymrwymedig i gynaliadwyedd

- Cynnwys arferion cynaliadwyedd ar draws pob adran y Coleg
- Sefydlu ôl troed carbon sylfaenol gyda gostyngiadau bob blwyddyn
- Lleihau nifer y byrddau gwaith cyfrifiaduron personol sefydlog ar draws y Coleg, a chael dyfeisiau symudol a gorsafoedd docio yn eu lle
- Cynaliadwyedd ariannol gan sicrhau lefel briodol o warged ar gyfer buddsoddiad parhaus.


## ✓ Coleg cynhwysol

- Mwy o amrywiaeth ymhlith y boblogaeth staff
- Parhau i ganolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy hyfforddiant rheolaidd i staff a rhannu arferion gorau
- Cynnwys arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein cwricwlwm.

*Sylwch fod yr amcanion strategol hyn yn cael eu hategu gan gynllun gweithredu blynyddol manwl sy'n sicrhau y cânt eu rhoi ar waith a'u monitro.

# Cyfeiriad Strategol

Mae ein cyfeiriadau strategol wedi cael eu dewis yn ofalus, ac yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn troi ein datganiadau **ble byddwn ni** yn gyflawniadau go iawn.



# Cyfeiriad Strategol

## Ein Dysgwyr

Byddwn yn cynnwys dysgwyr mewn prosesau o wneud penderfyniadau lle bo'n briodol.

Byddwn yn creu diwylliant dysgu diddorol a chynhwysol, sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hystâd gan ddarparu amgylchedd addysgol modern ac addas ar gyfer ein dysgwyr.

Byddwn yn darparu gwasanaethau cymorth rhagorol i fyfyrwyr, wedi'u teilwra i ateb anghenion amrywiol ein dysgwyr.

Byddwn yn canolbwyntio ar welliannau gan sicrhau taith gyfoethog, flaengar a di-dor i'n dysgwr.

## Ein Hansawdd Uchel

Byddwn yn gweithredu mesurau gwella ansawdd ac olrhain cynnydd i sicrhau llwyddiant a'r safonau dysgu uchaf.

Byddwn yn buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ein staff i sicrhau eu bod ar flaen y gad o ran arferion addysg a safonau diwydiant.

Byddwn yn arloesi ac yn diweddaru ein cwricwlwm yn barhaus i ddiwallu anghenion dysgwyr a safonau diwydiant sy'n datblygu.

Byddwn yn darparu dysgu ac addysgu arloesol, cynhwysol o ansawdd uchel i alluogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion llwyddiannus, cyflogadwy a moesegol.

## Ein Pobl a Lles

Byddwn yn darparu diwylliant ac amgylchedd cynhwysol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu a buddsoddi yn ein darpariaeth lles.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu a denu a chadw'r talent gorau.

Byddwn yn gweithredu mentrau amrywiaeth i sicrhau ein bod yn sefydliad mwy amrywiol.

Byddwn yn cael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis trwy gael cydnabyddiaeth genedlaethol ac ennill gwobrau.

## Ein Harferion Cynaliadwyedd

Byddwn yn darparu addysg a hyfforddiant i staff a dysgwyr, i sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei gynnwys ym mhob maes y Coleg.

Byddwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor ein Coleg a'i gymunedau trwy gydweithredu a chymryd rhan mewn partneriaethau cymdeithasol cyfrifol gyda sefydliadau cymunedol.

Byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon trwy wella effeithlonrwydd ystâd y Coleg gan leihau'r defnydd o ynni ac adnoddau.

Byddwn yn cynnal iechyd ariannol cadarn trwy reolaeth ariannol effeithiol a thrwy wneud y gorau o gyfleoedd ariannu i gefnogi gweithrediadau hanfodol ynghyd â buddsoddiad a thwf parhaus.

## Ein Partneriaid

Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid allanol i gyflawni buddion teg a pharhaus i bob un ohonom mewn ffordd ragweithiol ac arloesol.

Byddwn yn gweithredu'n strategol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i ddylanwadu, cefnogi a gwella canlyniadau cyffredin.

Byddwn yn sefydlu ac yn cynnal partneriaethau strategol gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a sicrhau darpariaeth arloesol a fydd yn gwella sgiliau a phrofiadau ein dysgwyr, ac yn fuddiol hefyd i gleientiaid, cymunedau a'r economi ehangach.

# Gwerthoedd y Coleg

Mae ein gwerthoedd yn llywio popeth a wnawn, gan arwain ein cymuned o ddysgwyr, staff, a phartneriaid tuag at lwyddiant. Mae’r gwerthoedd hyn yn fwy nag egwyddorion, maen nhw’n adlewyrchu ein hymrwymiad i greu amgylchedd cadarnhaol, blaengar sy’n annog twf personol a phroffesiynol.

### Gwydnwch

Mae bod yn wydn yn golygu bod â meddylfryd cadarnhaol tuag at heriau, bod yn agored i newid a chymryd cyfrifoldeb personol am eich lles eich hun.

### Uniondeb

Mae gweithredu ag uniondeb yn golygu bod yn onest ag egwyddorion moesol cryf yn eich penderfyniadau a’ch gweithredoedd.

### Parch

Mae parchu ein gilydd yn golygu trin pobl ag urddas trwy wrando ac ystyried beth sydd gan bobl i’w ddweud ac ymateb mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol.

### Arloesedd

Mae bod yn arloesol yn golygu bod yn chwilfrydig ac yn agored i syniadau newydd i ysgogi gwelliant.

### Cydweithredu

Mae cydweithredu yn golygu gweithio gyda’ch gilydd fel tîm i gyflawni pwrpas cyffredin.

Mae’r gwerthoedd hyn yn ein hysbrydoli i gynnal safon uchel o ragoriaeth, gan sicrhau llwyddiant i bawb yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.








# Yr hyn sy’n bwysig i ni o hyd

Yn rhedeg trwy bob agwedd ar ein cynllun strategol mae pedwar maes allweddol, ein hedafedd aur, sy’n treiddio pob un o’n gweithredoedd:

## Arloesedd Digidol

Cofleidio technoleg i wella dysgu, addysgu, ac effeithiolrwydd gweithredol.

## Yr Iaith Gymraeg

Meithrin ein treftadaeth ddiwylliannol a grymuso dysgwyr a staff trwy sgiliau i ffynnu mewn gweithle dwyieithog.

## Cyflogadwyedd

Sicrhau bod gan ein dysgwyr y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y farchnad swyddi sy’n datblygu.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sicrhau amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn.

Er mwyn gwireddu pob un o’r meysydd hyn, mae cyfres o **strategaethau galluogi a chynlluniau gweithredu** i sicrhau bod y meysydd hyn yn cael eu hymgorffori ym mhopeth a wnawn. Mae’r strategaethau hyn yn darparu’r fframwaith ymarferol ar gyfer gweithredu ein gweledigaeth ar draws pob maes gweithredu’r Coleg.




*Tom Giffard yn cwrdd â dysgwyr Coleg Gŵyr Abertawe sy’n elwa ar ddarpariaeth ddwyieithog, Hydref 2024*

# Edrych ymlaen

Wrth i ni gychwyn ar y daith gyffrous hon, mae ein gweledigaeth o **Ysbrydoli Dyfodol Uchelgeisiol** a'n cenhadaeth o **Drawsnewid Bywydau trwy Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant** yn parhau i fod wrth wraidd ein holl ymdrechion. Mae'r cynllun strategol yn amlinellu sut y byddwn yn darparu profiad rhagorol i'r dysgwr, cynnal y safonau o'r ansawdd uchaf, hyrwyddo lles a chynhwysiant, meithrin partneriaethau strategol, ac ymrwymo i arferion cynaliadwy.

Trwy weithio gyda'n gilydd a glynu wrth ein gwerthoedd sef **Gwydnwch, Uniondeb, Parch, Arloesedd,** a **Chydweithredu**, byddwn yn cyrraedd ein nodau uchelgeisiol a pharhau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dysgwyr, ein cyflogwyr a'r cymynuedau rydym yn eu gwasanaethu.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen ein cynllun strategol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i wireddu ein huchelgeisiau.

Kelly Fountain
*Pennaeth*

Mark Jones MBE
*Prif Swyddog Gweithredol*

Meirion Howells
*Cadeirydd y Gorfforaeth*





